# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd |
| Dyddiad: | Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012 |
| Amser: | 09:30 - 11:20 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200002_05_12_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

**Aelodau'r Cynulliad:**

Mark Drakeford (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Rebecca Evans
Vaughan Gething
William Graham
Elin Jones
Darren Millar
Lynne Neagle
Lindsay Whittle
Kirsty Williams

**Tystion:**

Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru
David Sissling, Llywodraeth Cymru

**Staff y Pwyllgor:**

Sarah Beasley (Clerc)
Llinos Dafydd (Clerc)
Steve George (Clerc)
Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)
Olga Lewis (Dirprwy Glerc)
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Victoria Paris (Ymchwilydd)

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2. Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Atebodd y Gweinidog a'i swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig am brosiectau cyfalaf sydd heb eu cyflawni, y manylion fesul bwrdd iechyd o sut byddai'r £82 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG yn cael ei ddyrannu, sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at yr adolygiad o'r cydbwysedd o ran cymhwysedd rhwng y DU a'r UE, a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer staff yn y lluoedd arfog a'r gwasanaethau brys.

## 3. Papurau i'w nodi

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Faterion Ewropeaidd

3.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy** Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod ar 17 Hydref a oedd yn craffu ar y gyllideb

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 4. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Ystyried penodi Cynghorydd Arbenigol i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar y Bil

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr opsiwn o benodi cynghorydd arbenigol i'w gynorthwyo â'r gwaith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng nghyfnod 1.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor y byddai cymorth o'r maes polisi perthnasol yn ddefnyddiol a bod gwerth ymchwilio i'r opsiwn. Cytunodd y Pwyllgor y gallai fod o fudd chwilio am gyngor gan nifer o gynghorwyr, a allai ei gynorthwyo i ystyried materion penodol, yn hytrach na phenodi un cynghorydd arbenigol.

4.3 Holodd y Pwyllgor y tîm clercio i ymchwilio ymhellach a dod ag enwau ymgeiswyr posibl i'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

## 5. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) - Cyfnod 1: y dull o graffu

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a'r dull o graffu ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) a chytunodd i lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan.

## 6. Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru): Cyfnod 1 – y dull o graffu

6.1 Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor at lythyr diweddar a gafodd oddi wrth y Llywydd yn nodi, yn ei barn hi, bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, nododd hefyd fod ei barn ar fin y gyllell o ran rhai rhannau o'r Bil. Amlinellodd y Cadeirydd y rhannau hynny o'r Bil a dywedodd y byddai'r llythyr yn cael ei anfon at Aelodau'n fuan.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid ystyried y materion a godwyd gan y Llywydd adeg y broses graffu yng Nghyfnod 1. Holwyd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth am y materion a gododd y Llywydd er mwyn gallu llunio cwestiynau i gynorthwyo'r Pwyllgor i ymchwilio i'r materion hynny gyda'r tystion perthnasol.

6.3 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yng Nghyfnod 1.

6.4 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r dull cyffredinol o graffu a awgrymwyd ym mhapur y Pwyllgor ond cytunodd y dylid ychwanegu cwestiwn am gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol at y llythyr ymgynghoriad.

6.5 Cytunwyd hefyd y dylid ystyried cynrychiolwyr o elusennau canser, byrddau iechyd, y diwydiant adeiladu a sefydliadau sy'n cynhyrchu asbestos fel tystion llafar ychwanegol.

## 7. Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru): Cyfnod 1 – sesiwn dystiolaeth 1 - GOHIRIWYD

TRAWSGRIFIAD
Gweld y trawsgrifiad o'r cyfarfod